Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, ar ddydd Mercher, Gorffennaf 26ain 2006 am 7.30 p.m.

Presennol: Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Roy Davies, Cyng Pam Steane Price, Cyng Colin Jenkins, Cyng Edward Thomas,
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau **Dim**

Materion yr Heddlu : Adroddodd y PC Vernon Thomas fod 4 trosedd wedi'u cofnodi, 2 am feddu ar ganabis, 1 am dyfu cannabis ac 1 o ddinoethi anweddus. Mae pob un wedi'u canfod. Dywedodd fod yr Heddlu yn monitro'r adroddiadau fod yna bobl ifanc yn yfed yn y parc a gofynnodd am gydweithrediad gofalwr y parc. Yn anffodus, maent wedi dod i wybod fod rhieni yn rhoi 'alcopops' i rai sy'n mynd i'r disgo yn y Neuadd Ddinesig, a hynny heb yn wybod i'r ymddiriedolwyr.
Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Jenkins dywedodd PC Thomas fod parcio ar linellau igam ogam yn drosedd ardystiedig, ond fod parcio ar linellau melyn yn fater i Wardeiniaid Traffig y Cyngor Sir.
Codwyd y mater gan un o'r trigolion fod yna oedi hir wrth geisio cysylltu â'r Heddlu trwy'r ganolfan alwadau. Cynigiodd Y Cyng Colin Jenkins y dylid anfon llythyr at y Prif Gwnstabl yn gofyn am well gwasanaeth. Eiliwyd hyn gan y Cyng Richard Wallace.

Cof 35/ Gorffennaf / 06 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o'r Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Heol Cilgant ar ddydd Mercher 24ain Mai 2006 fel rhai cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o'r CCB a ail-gynhaliwyd yn y Neuadd Ddinesig ar ddydd Gwener, Mai 26ain fel rhai cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor Sir ar ddydd Iau, Mehefin 1af fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r CCB a Ailgynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, 7fed Mehefin fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 14eg Mehefin, 2006 fel cofnod cywir ynghyd â'r newid canlynol Cof 11, eitem b). " mae'r hawl i apelio wedi'i gymeradwyo". Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 14eg Mehefin, 2006 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a derbyniwyd Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Gorffennaf 12fed fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher Gorffennaf 12fed fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Adroddiad y Cynghorydd Sir

Doedd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ddim yn gallu mynychu.

Cof 36 / Gorffennaf / 06 Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol

Adroddodd y Maer, y Cyng Hugh Towns bod cyfarfod ar y cyd wedi'i gynnal rhwng pedwar o gynrychiolwyr o Gyngor Bro Dyffryn Cennen a Chyngor Tref Llandeilo ar y 13eg Gorffennaf yn Siambr y Cyngor, Heol Cilgant. Cytunwyd y byddai'r ddau Gyngor yn trefnu cyfarfod arall pan fydd rhagor o fanylion ynglŷn â'r ffordd osgoi arfaethedig ar gael. Roedd yn gyfarfod positif iawn.

Cof 37/ Gorffennaf / 06 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu

WCVA	- Tâl Gweinyddiaeth Mehefin	£ 34.66
WCVA	- Tâl Cyflogai Mehefin	£ 159.76
WCVA	- Tâl Gweinyddiaeth Gorffennaf	£ 34.66
WCVA	- Tâl Cyflogai Gorffennaf	£ 159.76
Dilwyn Thomas – Gwaith ar y Llwybr Treftadaeth		£ 665.00

Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylid eu talu. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

2. Rhagolygon y Gyllideb am y 3 Blynedd Nesaf

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Esboniodd y Swyddog Cyllid ei fwriadau o ran y rhagolygon cyllid a fyddai'n galluogi'r Cyngor i gynllunio ar gyfer digwyddiadau'r dyfodol. Fe fydd yn eitem agenda ymhob cyfarfod misol.
Un enghraifft a roddwyd fydd yr angen i osod arian i'r naill ochr er mwyn ailargraffu'r taflenni llwybr Treftadaeth.

3. Yr Elw Blynyddol i'w Archwilio.

. Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ei gyfrifon i'r Cyngor ar gyfer y Flwyddyn 2005-6. Yr arian grant ar gyfer yr hysbysfwrdd oedd £683.42. Gobeithiwyd y byddai Cambria yn cyflwyno ei bil terfynol ar gyfer y prosiect llwybr Treftadaeth erbyn cyfarfod Cyllid Medi. Cynigiodd y Cyng Charlotte Leadbeater y dylid eu derbyn. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cofnod 38/ Gorffennaf/ 06 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer, Cyng Colin Jenkins adroddiadau o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau wnaeth eu mynychu ar ran y Cyngor yn ystod y deufis diwethaf. Mae'r rhain i'w cynnwys ar wefan y Cyngor.

Cof 39 / Gorffennaf/ 06 Y Prosiect Treftadaeth.

Rhoddodd y Cyng Ros Bellamy adroddiad llafar ar gynnydd y llwybr Treftadaeth. Mae'r chwe phanel wedi'u rhoi yn eu lle. Mae'r Cyng Roy Davies wedi anfon datganiad i'r wasg at y SW Guardian, Carmarthen Journal, Western Mail, a Radio Sir Gâr. Mae'r Cyng Bellamy wedi derbyn dyfynbris oddi wrth gwmni cyhoeddusrwydd o'r enw Caron Promotions sy'n barod i ddosbarthu taflenni i leoliadau addas yng Ngorllewin Cymru ar gost o £22 fesul 1000 o gopïau. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn ein bod yn gofyn i'r cwmni dan sylw i ddosbarthu 10000 o gopïau ar gost o £220. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid. Y Clerc i gysylltu â'r cwmni er mwyn gwneud y trefniadau i gasglu'r taflenni.

Cof 40 / Gorffennaf / 06 Prosiect yr Ardd

Adroddodd y Cyng Pam Steane Price fod yna lwybr rhyw fedr o led wedi'i glirio ar hyd y ffin, ar dir cymdogion. Fodd bynnag nid yw'n teimlo fod caniatâd cyfreithiol i ddefnyddio'r llwybr er mwyn cael mynediad wedi'i dderbyn hyd yn hyn.

Cof 41/ Gorffennaf / 06 Adroddiad Neuadd y Sir

Adroddodd y Cyng Ieuan Gwyn fod Grŵp Rheoli'r Prosiect wedi cwrdd. Dywedodd y byddai angen arian y Bwrdd Benthyciadau Cyhoeddus erbyn mis Medi. Mae'r gwaith i ddechrau ar yr 21ain Awst. Bydd y celfi'n cael eu cadw yng ngarej Ysgubor Abad. Bydd y sêff yn cael ei chadw yn y Swyddfa. Mae yna 5 cam i'r gwaith. Wnaeth atgoffa Cynghorwyr nad yw'r offer sy'n cael ei gadw yn yr Archif wedi'i gynnwys yn y Grant.
Cynigiodd y Cyng Gwyn y dylid arwyddo'r cytundeb gyda'r adeiladwr y tu allan i'r cyfarfod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Bydd y grŵr rheoli yn cwrdd bob pythefnos. Mae'r adeiladwr wedi derbyn caniatâd i weithio ar ddydd Sul. Mae rhybudd i

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

bartion sy'n ymwneud ag ef wedi'i hanfon. Gofynnwyd i'r Clerc hysbysu cwmni yswiriant Zurich o'r gwaith sydd i'w wneud dros yr 20 wythnos nesa.
Mae'r dogfennau i dderbyn y grant arfaethedig o £63530 i'w llofnodi a'u dychwelyd erbyn Gorffennaf 28ain. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylai'r lefel o gymorth grant o Fwrdd Benthyciadau Cyhoeddus fod yn £30000 gydag 20 mlynedd i'w dalu yn ôl. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Cyngor dderbyn y llythyr oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad gyda'r amodau ar gyfer y benthyciad. Roedd pawb o blaid.

Cof 42/ Gorffennaf / 06 Adroddiad y Pwyllgor Tân Gwyllt.

Rhoddwyd adroddiad ysgrifenedig o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18fed Mai

Cof 43/ Gorffennaf / 06 Adroddiad y Pwyllgor Goleuadau Nadolig

Rhoddwyd adroddiad ysgrifenedig o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18fed Mai.

Cof 44 / Gorffennaf / 06 Is bwyllgor Cynigion Iechyd

Dosbarthwyd copïau gan y Cyng Charlotte Leadbeater o'r llythyr o ymateb a anfonwyd i Fwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin ar eu cynigion am newidiadau i wasanaethau'r ysbytai lleol. Bydd y Cyng Leadbeater yn mynychu seminar yn Nant y Ci ar ddydd Mawrth, Awst 1af.

Cof 45 / Gorffennaf / 06 Diweddaru'r Wefan

Bydd y Cyng Charlotte Leadbeater a Chyng Pam Steane Price yn cwrdd cyn cyfarfod mis Medi er mwyn adolygu'r anghenion presennol.

Cof 46 / Gorffennaf / 06 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dywedodd Mr Davies fod angen gwneud gwaith atgyweirio ar Bont y Brenin a hynny oherwydd bod plant wedi bod yn neidio i'r afon o'r bont. Angen cysylltu â Caroline Ferguson o CSC.
Mae'r Cyng Richard Wallace wedi siarad â Mr Gwilym Hughes gyda'r bwriad o symud y plac i Neuadd y Sir. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid rhoi'r hawl i'r Swyddog Technegol brynu clo ar gyfer y garej, ynghyd â lliain plastig er mwyn diogelu'r celfi sydd i'w cadw yno. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid agor cyfrif gyda LBS er mwyn gallu prynu deunyddiau ar frys yn ystod y cyfnod y mae Neuadd y Sir yn cael ei hatgyweirio. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 47 / Gorffennaf / 06 Adroddiad ar yr Iaith Gymraeg.

Cyflwynodd y Cyng Roy Davies adroddiad ysgrifenedig ar y sefyllfa bresennol. Gofynnodd i'r Cyngor wneud nodyn fod yna gynnydd wedi'i wneud o ran penodi Clerc dwyieithog.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cof 48 / Gorffennaf / 06 Manylion cyswllt Cynghorwyr

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai Cynghorwyr rhoi eu manylion cyswllt er mwyn eu dosbarthu i'r cyhoedd i'r Clerc yn breifat. Cynigiodd y Cyng Pam Steane Price y dylai'r Clerc ddiweddaru'r hysbysfwrdd newydd gyda map yn diffinio wardiau'r cyngor, ffotograffau o'r aelodau a Staff, a manylion cyswllt ar gyfer y Clerc. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Argymhellwyd gan y Maer y dylid rhoi ystyriaeth bellach i roi agendâu dwyieithog ar yr hysbysfwrdd.
Penderfynodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid gweithredu Rheol Sefydlog Rhif 6 er mwyn cwblhau gwaith y cyngor

Cof 49 / Gorffennaf / 06 Taliadau Parcio Ceir

Adroddodd y Maer ar gyfarfod ar y cyd wnaeth ei fynychu gyda'r Cyng Richard Wallace a chynrychiolwyr Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Tref Castell Newydd Emlyn yn Neuadd y Sir ar Orffennaf y 13eg. Cafwyd anerchiad gan Mr Richard Workman a Mr Trevor Sage, y ddau'n swyddogion gyda CSC. Clywyd ganddynt y byddai'r taliadau parcio yn cael ei gostwng i 20c am 30 munud.
Bydd y Bwrdd Gweithredol yn ystyried gostyngiadau pellach o 20c am1 awr. Nid oeddynt yn fodlon derbyn barn y cynrychiolwyr mai parcio am ddim yw'r penderfyniadau cywir er mwyn helpu'r trefi gwledig.
Cynigiwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Workman a Ms Pam Palmer yn mynegi anfodlonrwydd y Cyngor o ran y taliadau parcio.

Cof 50 / Gorffennaf / 06 Swyddi Gwag gyda'r Cyngor.
Adroddwyd fod yna ddau enwebiad wedi'u derbyn ar gyfer y ddwy swydd wag.
Dywedodd y Maer bod llythyr wedi'i dderbyn oddi wrth Mrs Dawn Wallace yn cynnig ei hunan i'w chyfethol ar y Cyngor er mwyn llanw'r lle gwag yn Ward y Castell. Cynigiodd y Cyng Roy Davies fod Mrs Wallace i'w chyfethol ar y Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 51 / Gorffennaf / 06 Gohebiaeth

1. Rhodri Morgan AC- Adroddiad blynyddol – nodwyd
2. Dr Bill Brady – gwrthwynebiad i fater cynllunio – nodwyd
3. LlCC- Manylion Cymeradwyo'r Benthyciad – Clerc i'w ffeilio.
4. Bwrdd iechyd lleol – nodwyd
5. Ffederasiwn Ffermydd a Gerddi Bach Trefol – rhoddwyd i Grŵp yr Ardd Gymunedol.
6. CSC – rhybudd o gau ffordd dros dro – Clerc i anfon gwrthwynebiadau brys ynglŷn â'r cynllunio gwael a'r diffyg ystyriaeth a roddwyd i fasnachwyr a thrigolion. Dywedwyd bod y cynigion yn hollol anymarferol.
7. Cambria – Parthed Grant ar gyfer Neuadd y Sir – I'w ffeilio.
8. Cambria – cofnodion y Gweithgor ar y cyd.
9. Mr Wyn Evans – cais am gofnodion o'r Cyngor – rhoddwyd
10. Cyng Liz Fleming – parthed taliadau parcio – ei anfon at CSC.
11. Mr Michael – Parthed Llandeilo yn ei Blodau – cyfeirio at y Gymdeithas Gymunedol.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cof 52/ Gorffennaf/ 06 – Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

1. Gan y bydd Neuadd y Sir yn cael ei hatgyweirio, cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor Medi a Hydref yn Oriel y Neuadd Ddinesig.
2. Bydd y Llwybr Treftadaeth yn cael ei lansio ar y 29ain a 30ain Medi.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.54 p.m.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk